

2.1.3 (a) (b) Pwysigrywydd Cyfranogiad Gweithredol i Ddatblygiad a Llesiant

At yr arholiad, bydd angen i chi wybod a deall sut gall unigolion ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gofal, eu hiechyd a'u lles eu hunain, er mwyn cefnogi system gynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Beth yw cyfranogiad gweithredol?

DIFFINIAD:

Mae cyfranogiad gweithredol yn ffordd o weithio sy'n ystyried unigolion yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal eu hunain yn hytrach nag yn dderbynwyr goddefol. Mae cyfranogiad gweithredol yn ystyried hawl pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pherthnasoedd bywyd pob dydd mewn ffordd mor annibynnol â phosibl.

Beth yw manteision cyfranogiad gweithredol i unigolion?

Mae cyfranogiad gweithredol yn fuddiol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- mwy o reolaeth dros benderfyniadau am eu bywydau, gan gynnwys y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu cael
- mwy o gyfleoedd i ddysgu a datblygu gwybodaeth a sgiliau pwysig addysg a chyflogaeth
- cyswllt cymdeithasol a pherthnasoedd rhyngpersonol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd sy'n bwysig iddyn nhw, a hynny mor annibynnol â phosibl
- ymdeimlad cryfach o hunan-barch a hyder
- yn llai agored i niwed a llai o gyfleoedd i bobl eraill eu cam-drin
- gwell iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a mwy o wydnwch.
- **Proses yw cyfranogiad gweithredol** sy'n berthnasol i bob cyfnod mewn bywyd. Gallai rhieni/gofalwyr fod yn gyfranogwyr gweithredol i blant ifanc.
- Dull yw cyfranogiad gweithredol sy'n grymuso unigolion.
- Dull person-ganolog yw cyfranogiad gweithredol.

Mae cyfranogiad gweithredol yn gwerthfawrogi pob unigolyn drwy sicrhau'r canlynol:

- Maen nhw'n annibynnol**
- Maen nhw'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus**
- Bydd pobl yn gwrando arnyn nhw**
- Maen nhw'n gallu asesu eu hanghenion eu hunain**
- Maen nhw'n gallu dewis eu cefnogaeth eu hunain**
- Maen nhw'n gallu byw bywyd llawn, gweithgar**
- Maen nhw'n gallu datgan eu barn**
- Maen nhw'n gallu creu eu cynllun cefnogi eu hunain**
- Maen nhw'n rheoli eu gofal eu hunain**
- Maen nhw'n gallu parhau i ddefnyddio'u sgiliau**
- Maen nhw'n cael eu hystyried yn bartner yn eu gofal eu hunain**
- Maen nhw'n cael eu cefnogi**
- Maen nhw'n llwyr reoli eu penderfyniadau**